national slate museum
amgueddfa lechi cymru

cyfleoedd i ysgolion

2014-2015

national museum wales
amgueddfa cymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government



Amdanom ni

Mae Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis, yn dod â hanes y diwydiant llechi'n fyw i filoedd o blant bob blwyddyn trwy arddangosiadau diddorol, gwrthrychau gwreiddiol a sesiynau wedi'u teilwra'n arbennig ar gyfer grwpiau ysgolion.

Cartref yr Amgueddfa yw'r hen weithdai gwreiddiol o Oes Fictoria. Dyma ble cafodd holl offer a chyfarpar chwarel anferthol Dinorwig ei gynhyrchu, a dyma lle gwnaed yr holl waith cynnal a chadw hefyd. Mae fel petai'r gweithwyr newydd orffen am y dydd a gadael eu hoffer yn y fan a'r lle, gan adael golygfa ac awyrgylch arbennig – yma, cewch brofiad bythgofiadwy tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Archebu a chynllunio

Rhaid archebu ymweliadau grŵp ymlaen llaw

Ffoniwch (029) 2057 3702 i drefnu dyddiad eich ymweliad, yna byddwn yn anfon rhagor o wybodaeth a ffurflen archebu atoch.

Gwybodaeth iechyd a diogelwch

Mae gwybodaeth i'ch helpu i gwblhau asesiad risg ar **www.amgueddfacymru.ac.uk/addysg/llechi.**

Trefniadau bwyta

Wrth archebu'ch ymweliad, gallwch gadw lle i fwyta pecyn cinio os bydd ar gael.

Siop a chaffi

Cofiwch am siop yr Amgueddfa sy'n gwerthu pob math o anrhegion. Gallwch hefyd ffonio'r caffi ar (029) 2057 3700 i drefnu pecyn cinio ar gyfer eich grŵp, am £3.49 y pen.

Pris sesiynau wedi'u hwyluso

Codir tâl am sesiynau dan arweiniad staff yr Amgueddfa sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm. Mae pedwar pris gwahanol (heb gynnwys TAW):

sesiwn hyd at awr ar gyfer hyd at 15 disgybl – £27	sesiwn hyd at awr ar gyfer hyd at 35 disgybl – £42
sesiwn hyd at hanner diwrnod ar gyfer hyd at 15 disgybl – £47	sesiwn hyd at hanner diwrnod ar gyfer hyd at 35 disgybl – £77

Ar gyfer ysgolion yng Nghymru: os yw'r Llywodraeth, yn unol â'r ffigurau diweddaraf, yn ystyried fod mwy nag 20% o ddisgyblion eich ysgol yn cael prydau ysgol am ddim, ni chodir tâl am y sesiynau. Mae grwpiau Anghenion Addysgol Arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion yn gymwys i gael sesiynau am ddim hefyd.

Anfonir anfoneb i'ch ysgol ar ôl diwrnod yr ymweliad. Os byddwch yn canslo ar ôl 10am y diwrnod cyn y sesiwn neu os byddwch yn hwyr ac yn colli'ch sesiwn, rhaid talu'r anfoneb. Nid yw'r prisiau'n cynnwys TAW ond mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn gallu ei hawlio'n ôl.

Mae mynediad AM DDIM diolch i nawdd Llywodraeth Cymru

Manylion cyswllt

Amgueddfa Lechi Cymru
Llanberis
Gwynedd
LL55 4TY

(029) 2057 3717

llechi@amgueddfacymru.ac.uk

@amgueddfalechi

Amguedda Llechi Cymru

www.amgueddfacymru.ac.uk/addysg

Mae Amgueddfa Lechi Cymru ym Mharc Gwledig Padarn, Llanberis ar yr A4086. Gadewch Gyffordd 11 yr A55 ger Bangor, a dilyn yr A5 tua Llanberis ac yna'r B4366. Dilynwch yr arwyddion i Lanberis a Pharc Gwledig Padarn.

Am fersiwn print bras o'r daflen hon, ffoniwch (029) 2057 3240

llun © Adrian Evans

Eich Profiad yn yr Amgueddfa

Gan ddibynnu ar faint o amser sydd gennych, gallech gynnwys cynifer o'r gweithgareddau dan arweiniad athro ag y dymunwch. Gallwch ddewis a dethol ein sesiynau wedi'u hwyluso er mwyn canolbwyntio ar agweddau penodol ar y cwricwlwm.

- cyfarfod â'n chwarelwyr crefftus a'u gwylio'n hollti a naddu'r llechi â llaw
- crwydro tai'r chwarelwyr, i gael blas ar fywyd yr aelwyd ym 1861, 1901 a 1969
- cerdded i dop yr olwyn ddŵr – y fwyaf o'i bath sy'n dal i weithio ym Mhrydain heddiw
- gwylio'r ffilm *Dwyn y Mynydd*, rhan hanfodol o'ch ymweliad i ddeall pwysigrwydd y diwydiant llechi i Gymru a'r byd.

Wrth archebu, cofiwch ddweud wrthym os hoffech gynnwys unrhyw un o'r uchod yn eich ymweliad. Ar gael gydol y flwyddyn ac yn addas ar gyfer y rhan fwyaf o gyfnodau allweddol.

Y Cyfnod Sylfaen ac uwch

Fron Haul

Dewch i gymharu cartrefi'r chwarelwyr o 1861 i 1969, gan edrych ar yr hyn roedden nhw'n ei fwyta, sut oedden nhw'n ymolchi, ble'r oedden nhw'n cysgu – bydd digonedd o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau cyfathrebu ac ymchwilio.

CA2 ac uwch

Streic!

Sut effaith gafodd streic y Penrhyn ar fywyd yn Rhif 2 Fron Haul ym 1901? O'r dorth o fara ar y bwrdd i'r cês fyny grisiau, mae sawl crair yn tystio i'r caledi a ddioddefwyd a'r rhwyg a grewyd yn y gymuned a achoswyd gan un o anghydfodau hiraf ein hanes.

Y Lôn Goed

AM DDIM

Taith dywys drwy lygaid ein Saer. Cyfle i ddysgu mwy am y Cwt Sils, y Craen Coed, yr Olwyn Ddŵr, y Ffowndri a rhai o'n patrymau pren rhyfeddol.

Gweithgaredd 30-45 munud dan arweiniad staff yr Amgueddfa. Am ddim gan ei fod ar gael i bob ymwelydd.

Taith Gerdded Chwarel Vivian

Cyfle i fynd am dro tu hwnt i'r Amgueddfa at droed Chwarel Vivian, i glywed mwy am hanes y chwarelwyr ar y graig ac yn y gwaliau, ac i weld rhai o'r dyfeisiadau Fictoraidd blaengar fel y blondin a'r inclein.

Oni nodir fel arall, mae'r sesiynau uchod yn para 1 awr a dan arweiniad staff yr Amgueddfa.
Cost pob sesiwn yw £27 am hyd at 15 disgybl, £42 am hyd at 35 disgybl. Ffoniwch am ddyddiadau.

Sesiynau Tymhorol i Ysgolion Cynradd

Traddodiadau'r Nadolig

Sesiwn straeon Nadoligaidd o flaen y tân gyda Mair Tomos Ifans, cyfle i greu addurniadau i fynd adref gyda chi a gweld tai'r chwarelwyr wedi'u haddurno ar gyfer yr ŵyl.

Gweithgaredd 2 awr. £47 am hyd at 15 disgybl, £77 am hyd at 35 disgybl.
Ar gael Rhagfyr 2-4 a 9-11 2014.

Diwrnod Golchi

Cyfle i gamu'n ôl i'r gorffennol a chwrdd â Margiad yr olchwraig sy'n brysur wrth ei gwaith. Cyfle gwych i'r disgyblion chwarae rôl a dysgu am fywyd bob dydd merched yn oes Fictoria.

Gweithgaredd 2 awr. £47 am hyd at 15 disgybl, £77 am hyd at 35 disgybl. Ar gael Chwefror 2-6 2015.

Cynorthwyo athrawon

Ymweliadau rhagflas

Cysylltwch â ni os hoffech drefnu ymweliad rhagflas i drafod a chynllunio sut i wneud y mwyaf o'ch ymweliad ag Amgueddfa Lechi Cymru.

iBeacons

Dewch i roi tro ar yr ap newydd hwn i gael mynediad am ddim i wledd o gynnwys amlgyfrwng a digidol fydd yn cyfoethogi profiad eich disgyblion yma. Yn ogystal â digonedd o ffotograffau a fideos o'r archif, mae'n cynnwys gweithgareddau rhyngweithiol er mwyn annog eich disgyblion i ymgysylltu â gwahanol themâu. Amgueddfa Lechi Cymru yw'r amgueddfa genedlaethol gyntaf yn y byd i dreialu'r ap iBeacon Diwylliant a Threftadaeth. Bydd rhagor o weithgareddau addysg yn cael eu datblygu a'u treialu'n fuan. Gellir lawrlwytho'r ap i iPhones ac iPads trwy'r App Store, drwy deipio 'culture beacon', neu ewch i llechislate.com.

NEWYDD

Adnoddau

Mae'r adnoddau canlynol ar gael ar y safle neu i'w lawrlwytho ar **www.amgueddfacymru.ac.uk/addysg/llechi:**

- Llyfryn celf: gweithgareddau ar weithiau celf sy'n berthnasol i'r diwydiant llechi a'r Amgueddfa
- Llyfryn Fron Haul: gweithgareddau i gyd-fynd â'ch ymweliad â thai'r chwarelwyr
- Llyfryn gweithgareddau'r caffi: canolbwyntio ar fwyd a diod y chwarelwyr.

Bagloriaeth Cymru

Mae cyfleoedd lu yn yr Amgueddfa ar gyfer disgyblion Bagloriaeth Cymru. Ffoniwch y Rheolwr Addysg ar (029) 2057 3706 i gynllunio'ch ymweliad a thrafod adnoddau.